Mae rhagor o wybodaeth amdanom ni ar gael yn:
https://www.llyw.cymru/penderfyndiadau-cynllunio-ac-amgylchedd-cymru/beth-rydym-yn-ei-wneud
https://www.llyw.cymru/datblygiadau-o-arwyddocad-cenedlaethol-dns-ceisiadau

PCAC
PEDW
Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru
Planning & Environment Decisions Wales

# FFURFLEN CAIS CYNLLUNIO DNS

**Os oes gennych unrhyw ymholiadau am lenwi'r ffurflen hon ar ôl darllen ein harweiniad, cysylltwch â PCAC trwy PEDW.Seilwaith@llyw.cymru neu 0300 123 1590.**

**RHYBUDD:** Rhaid i PEDW dderbyn cais DNS dilys cyn pen 12 mis o ddyddiad hysbysiad PCAC o 'Dderbyn Hysbysiad'. Os caiff ei ganfod bod unrhyw ddogfennau ategol yn anghyflawn neu ar goll ac na chaiff hynny ei gywiro cyn diwedd y cyfnod hwnnw o 12 mis, caiff y cais ei wrthod fel un a wnaed yn annilys.

| | |
|---|---|
| **Rhif Cyfeirnod y Cais** (fel y'i rhoddwyd yn hysbysiad 'Derbyn Hysbysiad' PCAC) | |
| **Teitl y Prosiect** (fel y'i rhoddwyd ar wefan yr ymgeisydd yn ystod y cam cyhoeddusrwydd ac ymgynghori statudol cyn-ymgeisio) | |

## 1. YMGEISYDD

| | |
|---|---|
| Enw | |
| Enw'r sefydliad (os yw'n berthnasol) | |

## 2. ASIANT (os oes un) AR GYFER Y CAIS

| | |
|---|---|
| Enw cyswllt | |
| Enw'r sefydliad (os yw'n berthnasol) | |
| Eich Cyfeirnod | |

## 3. AWDURDOD CYNLLUNIO LLEOL NEU AWDURDODAU CYNLLUNIO LLEOL PERTHNASOL

Os oes unrhyw ran o ffin goch y safle wedi'i lleoli mewn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol ychwanegol, bydd yn 'ACLl perthnasol' a rhaid i ffi Adroddiad ar yr Effaith Leol gael ei thalu i PCAC yn ystod y cam gwneud cais ar gyfer pob ACLl perthnasol. Os yw'r Awdurdodau Cynllunio Lleol perthnasol wedi newid ers i chi gyflwyno eich Hysbysiad, dylech amlygu hynny mewn llythyr esboniadol.

## 4. YMWELD Â'R SAFLE

A ellir gweld y safle o ffordd gyhoeddus, llwybr troed cyhoeddus, llwybr ceffylau neu dir cyhoeddus arall? Gellir ☐ Na elliir ☐

A oes unrhyw faterion iechyd a diogelwch ar neu ger y safle y byddai angen i'r Arolygydd eu hystyried pe byddai'n ymweld â'r safle? Os oes, esboniwch isod Oes ☐ Nac oes ☐

Os oes angen ymweld â'r safle, gyda phwy y dylid cysylltu i wneud trefniadau eraill? Yr ymgeisydd ☐ Yr asiant ☐ Arall ☐

Os "Arall", rhowch fanylion:

Enw cyswllt

## 5. LLEOLIAD A/NEU LWYBR Y SAFLE

Rhaid rhoi datganiad cryno sy’n nodi’n glir leoliad safle’r cais neu’r llwybr os yw’n gynllun llinol. **Rhaid** i chi gynnwys cynllun o leoliad y safle, wedi’i luniadu i raddfa adnabyddadwy ac sy’n dangos cyfeiriad y gogledd. Rhaid dangos amlinelliad y safle’n goch a thir arall y mae’r ymgeisydd yn berchen arno yn las.

Disgrifiad o leoliad safle(oedd) y cais neu lwybr y datblygiad
(Cyfeiriwch at gynlluniau priodol)

| |
|---|
| |

A yw’n safle sengl neu’n safle llinol? Sengl ☐ Llinol ☐

Rhowch gyfeirnod(au) grid

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| SENGL: | | Dwyreiniad | | Gogleddiad | |
| LLINOL: | Dechrau | Dwyreiniad | | Gogleddiad | |
| LLINOL: | Canol | Dwyreiniad | | Gogleddiad | |
| LLINOL: | Diwedd | Dwyreiniad | | Gogleddiad | |

**6. DISGRIFIAD O'R DATBLYGIAD** (a fydd yn cael ei ddefnyddio fel man cychwyn gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi'r penderfyniad terfynol).

Dylech osgoi dyfynnu ffigurau fel rhan o'r disgrifiad o'r datblygiad, gan y gallai hyn achosi anawsterau pe byddai caniatâd cynllunio yn cael ei roi a'r ymgeisydd wedyn yn ceisio amrywio'r caniatâd.

**Gorsafoedd Cynhyrchu**, ychwanegwch gapasiti cynhyrchu amcangyfrifedig

---

**7. DOGFENNAU SY'N CAEL EU CYFLWYNO**

Rhaid i ymgeiswyr ddarparu rhestr o'r holl ddogfennau sy'n cael eu cyflwyno fel rhan o'r cais. Dylai'r rhestr hon fod yn ddogfen ar wahân. Rhaid i unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â Chaniatâd Eilaidd gael eu labelu felly'n glir. Dylai'r rhestr ddefnyddio system gyfeirio briodol fel y gellir ei diweddaru os caiff unrhyw ddogfennau ychwanegol neu gyfredol eu darparu yn ystod y broses archwilio.

---

**8. RHWYMEDIGAETHAU CYNLLUNIO**

A ydych wedi cynnal unrhyw drafodaeth â'r awdurdod cynllunio lleol perthnasol ynghylch rhwymedigaethau dan adran 106 Deddf 1990?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os **Ydw** rhowch fanylion am statws eich trafodaethau isod

---

## 9. CANIATÂD EILAIDD

Sylwch, ar gyfer pob cais am Ganiatâd Eilaidd sy'n cael ei gyflwyno i PCAC i'w ystyried gan Weinidogion Cymru gyda'r cais DNS, mae'n rhaid i chi gynnwys yn eich cyflwyniad DNS gopi o'r ffurflen gais gyflawn a fyddai'n ofynnol pe na fyddai'r cais yn cael ei gynnwys gyda'r cais DNS e.e. ffurflen gais Caniatâd Adeilad Rhestredig neu ffurflen gais A16 (datgofrestru a chyfnewid) y Ddeddf Tiroedd Comin ac ati. Dylai unrhyw ddogfennau sy'n gysylltiedig â chais am Ganiatâd Eilaidd gael eu labelu felly'n glir. Rhaid i chi hefyd gynnwys datganiad ysgrifenedig ar wahân am ganiatâd eilaidd sy'n gysylltiedig â'r cais arfaethedig y mae'r ymgeisydd o'r farn y bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniad yn ei gylch, neu y dylent wneud penderfyniad yn ei gylch, fel dogfen ategol hanfodol.

**Nodwch unrhyw Ganiatâd Eilaidd sy'n gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig y bydd Gweinidogion Cymru yn ei ystyried ochr yn ochr â'r cais hwn, a rhowch fanylion. Nodwch hefyd unrhyw Ganiatâd Eilaidd sy'n cael ei ystyried, neu sydd wedi cael ei ystyried, gan yr awdurdod cydsynio arferol, a rhowch fanylion.**

**1.** Caniatâd dan adran 2(3) Deddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979 (rheoli gwaith sy'n effeithio ar henebion cofrestredig). ☐

Cais i Weinidogion Cymru ☐

NEU Cais i'r awdurdod cydsynio arferol ☐

**Disgrifiad o'r Caniatâd sydd ei angen**

| |
|---|
| |

**2.** Caniatâd dan adran 178(1) Deddf Priffyrdd 1980 (cyfyngu ar osod rheiliau, trawstiau ac ati dros briffyrdd). ☐

Cais i Weinidogion Cymru ☐

NEU Cais i'r awdurdod cydsynio arferol ☐

**Disgrifiad o'r Caniatâd sydd ei angen**

| |
|---|
| |

**9. CANIATÂD EILAIDD** (parhad)

**3.** Caniatâd adran 8(1) Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (awdurdodi gwaith: caniatâd adeiladau rhestredig). ☐

Cais i Weinidogion Cymru ☐

NEU Cais i'r awdurdod cydsynio arferol ☐

**Disgrifiad o'r Caniatâd sydd ei angen**

| |
|---|
| |

**4.** Caniatâd dan adran 74(1) Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (rheoli dymchwel mewn ardaloedd cadwraeth). ☐

Cais i Weinidogion Cymru ☐

NEU Cais i'r awdurdod cydsynio arferol ☐

**Disgrifiad o'r Caniatâd sydd ei angen**

| |
|---|
| |

**5.** Caniatâd dan adran 4(1) Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 (gofyn am ganiatâd sylweddau peryglus). ☐

Cais i Weinidogion Cymru ☐

NEU Cais i'r awdurdod cydsynio arferol ☐

**Disgrifiad o'r Caniatâd sydd ei angen**

| |
|---|
| |

## 9. CANIATÂD EILAIDD (parhad)

**6.** Caniatâd dan adran 13 Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 (cais am ganiatâd sylweddau peryglus heb fod amod yn gysylltiedig â chaniatâd blaenorol). ☐

Cais i Weinidogion Cymru ☐

NEU Cais i'r awdurdod cydsynio arferol ☐

**Disgrifiad o'r Caniatâd sydd ei angen**

**7.** Caniatâd dan adran 17 Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 (dirymu caniatâd sylweddau peryglus wrth newid rheolaeth tir). ☐

Cais i Weinidogion Cymru ☐

NEU Cais i'r awdurdod cydsynio arferol ☐

**Disgrifiad o'r Caniatâd sydd ei angen**

**8.** Caniatâd cynllunio dan adran 57(1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (caniatâd cynllunio sydd ei angen ar gyfer datblygiad) ac eithrio caniatâd cynllunio amlinellol. ☐

Cais i Weinidogion Cymru ☐

NEU Cais i'r awdurdod cydsynio arferol ☐

**Disgrifiad o'r Caniatâd sydd ei angen**

**9. CANIATÂD EILAIDD** (parhad)

**9.** Awdurdodiad dan adran 247(1) Deddf 1990 (gorchymyn yn awdurdodi cau neu wyro priffordd). ☐

Cais i Weinidogion Cymru ☐

NEU Cais i'r awdurdod cydsynio arferol ☐

**Disgrifiad o'r Caniatâd sydd ei angen**

| |
|---|
| |

**10.** Awdurdodiad dan adran 248(2) Deddf 1990 (gorchymyn yn awdurdodi cau neu wyro priffordd sy'n croesi neu'n ymuno â llwybr priffordd newydd arfaethedig). ☐

Cais i Weinidogion Cymru ☐

NEU Cais i'r awdurdod cydsynio arferol ☐

**Disgrifiad o'r Caniatâd sydd ei angen**

| |
|---|
| |

**11.** Gorchymyn dan adran 251(1) Deddf 1990 (gorchymyn yn diddymu hawliau tramwy cyhoeddus dros dir sydd wedi'i ddal at ddibenion cynllunio). ☐

Cais i Weinidogion Cymru ☐

NEU Cais i'r awdurdod cydsynio arferol ☐

**Disgrifiad o'r Caniatâd sydd ei angen**

| |
|---|
| |

**9. CANIATÂD EILAIDD** (parhad)

**12.** Caniatâd a geisir dan adran 16(1) Deddf Tiroedd Comin 2006 (datgofrestru a chyfnewid: ceisiadau). ☐

Cais i Weinidogion Cymru ☐

NEU Cais i'r awdurdod cydsynio arferol ☐

**Disgrifiad o'r Caniatâd sydd ei angen**

| |
|---|
| |

**13.** Caniatâd sy'n ofynnol yn ôl adran 38(1) Deddf Tiroedd Comin 2006 (gwahardd gwaith heb ganiatâd). ☐

Cais i Weinidogion Cymru ☐

NEU Cais i'r awdurdod cydsynio arferol ☐

**Disgrifiad o'r Caniatâd sydd ei angen**

| |
|---|
| |

## 10. MANYLION AM BERCHENOGAETH SAFLE'R CAIS

Mae angen i ni wybod pwy sy'n berchen ar safle'r cais. Os nad ydych chi'n berchen ar safle'r cais neu os ydych yn berchen ar ran ohono'n unig, mae angen i ni wybod enw(au)'r perchennog/perchnogion neu'r perchennog/perchenogion rhannol.

**Rhaid llenwi un dystysgrif A, B, C, Ch neu D** (Cloddio a Gweithio Mwynau) **ynghyd â'r Dystysgrif Daliadau Amaethyddol** (Adran 11)

### TYSTYSGRIF PERCHENOGAETH – TYSTYSGRIF A

Rwy'n ardystio, ar y diwrnod 21 niwrnod cyn dyddiad y cais hwn, nad oes neb heblaw'r ymgeisydd yn berchennog (perchennog yw unigolyn sydd â buddiant rhydd-ddaliadol neu fuddiant lesddaliadol gydag o leiaf 7 blynedd ar ôl arno) ar unrhyw ran o'r tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef.

| | |
|---|---|
| Enw (mewn priflythrennau) | |
| Ar ran (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad | |

### TYSTYSGRIF PERCHENOGAETH – TYSTYSGRIF B  Hysbysiad dan Erthygl 16 (1)(a)

Rwy'n ardystio bod yr ymgeisydd (neu'r asiant) wedi rhoi'r hysbysiad gofynnol i bawb arall sydd, ar y diwrnod 21 niwrnod cyn dyddiad y cais hwn, yn hysbys i'r ymgeisydd fel perchennog (perchennog yw unigolyn sydd â buddiant rhydd-ddaliadol neu fuddiant lesddaliadol gydag o leiaf 7 blynedd ar ôl arno) neu denant (gweler yr arweiniad) ar unrhyw ran o'r tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef, fel y rhestrir isod:

| Enw | Dyddiad cyflwyno'r hysbysiad |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

Rhowch y cyfeiriad(au) ar y dudalen manylion personol.

| | |
|---|---|
| Enw (mewn priflythrennau) | |
| Ar ran (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad | |

**10. MANYLION AM BERCHENOGAETH SAFLE'R CAIS** (parhad)

**TYSTYSGRIF PERCHENOGAETH – TYSTYSGRIF C  Hysbysiad dan Erthygl 16 (1)(a) a (b)**

**(Ni ellir cyflwyno Tystysgrif A neu B ar gyfer y cais hwn)**

Rwy'n ardystio bod yr ymgeisydd (neu'r asiant) wedi cymryd camau rhesymol i ganfod enwau a chyfeiriadau perchenogion eraill (perchennog yw unigolyn sydd â buddiant rhydd-ddaliadol neu fuddiant lesddaliadol gydag o leiaf 7 blynedd ar ôl arno) y tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef, ac wedi rhoi'r rhybudd gofynnol iddynt, ond nad oedd yn gallu canfod enwau a chyfeiriadau pob perchennog.

| Enw | Dyddiad cyflwyno'r hysbysiad |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

Rhowch y cyfeiriad(au) ar y dudalen manylion personol.

Y camau a gymerwyd:

Enw'r papur newydd y cyhoeddwyd yr hysbysiad ynddo:

Dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad (ni all y dyddiad hwn fod yn gynharach na 21 niwrnod cyn dyddiad y cais hwn)

Enw (mewn priflythrennau)

Ar ran (os yw'n berthnasol)

Dyddiad

## 10. MANYLION AM BERCHENOGAETH SAFLE'R CAIS (parhad)

### TYSTYSGRIF PERCHENOGAETH – TYSTYSGRIF Ch Hysbysiad dan Erthygl 16 (1)(B)

**(Ni ellir cyflwyno Tystysgrif A ar gyfer y cais hwn)**

Rwy'n ardystio bod yr ymgeisydd (neu'r asiant) wedi cymryd camau rhesymol i ganfod enwau a chyfeiriadau pawb arall a oedd, ar y diwrnod 21 niwrnod cyn dyddiad y cais hwn, yn berchennog (perchennog yw unigolyn sydd â buddiant rhydd-ddaliadol neu fuddiant lesddaliadol gydag o leiaf 7 blynedd ar ôl arno) ar unrhyw ran o'r tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef, ond nad yw wedi gallu gwneud hynny.

Y camau a gymerwyd:

Enw'r papur newydd y cyhoeddwyd yr hysbysiad ynddo:

Dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad (ni all y dyddiad hwn fod yn gynharach na 21 niwrnod cyn dyddiad y cais hwn)

Enw (mewn priflythrennau)

Ar ran (os yw'n berthnasol)

Dyddiad

**10. MANYLION AM BERCHENOGAETH SAFLE'R CAIS** (parhad)

**TYSTYSGRIF PERCHENOGAETH – TYSTYSGRIF D Hysbysiad dan Erthygl 16(2) – Cais sy'n cynnwys cloddio a gweithio mwynau drwy weithrediadau tanddaearol**

Rwy'n ardystio bod yr ymgeisydd (neu'r asiant) wedi rhoi'r rhybudd gofynnol (gweler yr arweiniad) i bawb a oedd, ar y diwrnod 21 niwrnod cyn dyddiad y cais hwn, yn berchennog neu'n denant (gweler yr arweiniad) unrhyw ran o'r tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef, fel y rhestrir isod:

(a) Trwy gyflwyno'r hysbysiad i bob unigolyn y mae'r ymgeisydd yn gwybod ei fod yn unigolyn o'r fath ac y mae ei enw a chyfeiriad yn hysbys i'r ymgeisydd; ☐

| Enw | Dyddiad cyflwyno'r hysbysiad |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

Rhowch y cyfeiriad(au) ar y dudalen manylion personol.

(b) Trwy gyhoeddi'r hysbysiad ar ôl y dyddiad rhagnodedig mewn papur newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal y mae'r tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef wedi'i leoli ynddi; ☐

Enw'r papur newydd y cyhoeddwyd yr hysbysiad ynddo:

Dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad (ni all y dyddiad hwn fod yn gynharach na 21 niwrnod cyn dyddiad y cais hwn)

(c) Trwy arddangosiad ar y safle mewn o leiaf un man ym mhob cymuned y mae unrhyw ran o'r tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef wedi'i leoli ynddi, gan adael yr hysbysiad yn ei le am ddim llai na 7 niwrnod yn y cyfnod o 21 niwrnod yn uniongyrchol cyn cyflwyno'r cais i Weinidogion Cymru, ☐

Enw (mewn priflythrennau)

Ar ran (os yw'n berthnasol)

Dyddiad

## 11. TYSTYSGRIF DALIADAU AMAETHYDDOL

Mae angen i ni wybod hefyd a yw safle'r cais yn ffurfio rhan o ddaliad amaethyddol.

Rhaid i chi lenwi naill ai (a) neu (b).

**a** Nid oes unrhyw ran o'r tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef, neu'n rhan ohono, yn rhan o ddaliad amaethyddol ☐

**bi** Mae safle'r cais yn ddaliad amaethyddol, neu'n rhan o ddaliad amaethyddol, a'r ymgeisydd yw'r **unig** denant amaethyddol ☐

**bii** Mae safle'r cais yn ddaliad amaethyddol neu'n rhan o ddaliad amaethyddol ac mae'r ymgeisydd (neu'r asiant) wedi rhoi'r rhybudd gofynnol i bob unigolyn (ac eithrio'r ymgeisydd) a oedd, ar y diwrnod 21 niwrnod cyn dyddiad yr apêl, yn denant daliad amaethyddol ar yr holl dir, neu ran o'r tir, y mae'r cais yn ymwneud ag ef, fel y rhestri isod: ☐

| Enw'r Tenant | Dyddiad cyflwyno'r hysbysiad |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

Rhowch gyfeiriad(au) y Tenant ar y dudalen manylion personol.

| | |
|---|---|
| Enw (mewn priflythrennau) | |
| Ar ran (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad | |

**12. DOGFENNAU ATEGOL HANFODOL**

Mae'r dogfennau sydd wedi'u rhestru isod yn ofynion statudol ar gyfer pob cais DNS.

Ticiwch y blychau i gadarnhau pa ddogfennau/tystiolaeth a ddarparwyd gennych

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Copi o'r hysbysiad Derbyn Hysbysiad a gyhoeddwyd gan PCAC. | ☐ |
| 2 | Os cyhoeddwyd unrhyw gyngor cyn-ymgeisio gan PCAC ac/neu'r Awdurdod Cynllunio Lleol perthnasol, rhaid darparu copi ohono. | ☐ |
| 3 | Adroddiad Ymgynghori Cyn-ymgeisio ar baratowyd yn unol ag Erthygl 11 Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 (fel y'i diwygiwyd). | ☐ |
| 4 | Cynllun lleoliad safle, wedi'i lunio i raddfa adnabyddadwy ac yn dangos cyfeiriad y gogledd. Rhaid dangos amlinelliad y safle'n goch a dylai unrhyw dir arall y mae'r ymgeisydd yn berchen arno gael ei ddangos mewn glas. Dylai'r ddogfen hon fod yn un ar wahân. | ☐ |
| 5 | Datganiad Dylunio a Mynediad, yn unol ag Erthygl 14 Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 (fel y'i diwygiwyd). | ☐ |
| 6 | Lle mae Caniatâd Eilaidd yn cael ei geisio gan Weinidogion Cymru, copi gorffenedig o'r ffurflen gais a fyddai'n cael ei defnyddio pe byddai'r cais yn cael ei wneud i'r awdurdod cydsynio arferol (e.e. ffurflen gais am Ganiatâd Adeilad Rhestredig neu ffurflen gais A16 (datgofrestru a chyfnewid) y Ddeddf Tiroedd Comin ac ati), ynghyd ag unrhyw ddogfennau ategol hanfodol ar gyfer cais tebyg. | ☐ |
| 7 | Lle mae un neu fwy o fathau o Ganiatâd Eilaidd yn cael eu ceisio gan Weinidogion Cymru, datganiad ysgrifenedig yn ymwneud â chydsyniad eilaidd sy'n gysylltiedig â'r cais arfaethedig y mae'r ymgeisydd o'r farn y bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniad yn ei gylch, neu y dylent wneud penderfyniad yn ei gylch. | ☐ |
| 8 | Ar gyfer cais am linell uwchben, datganiad ysgrifenedig am hyd y llinell arfaethedig a'i foltedd enwol, a ph'un a yw'r holl fforddfreintiau angenrheidiol wedi'u cytuno â pherchenogion a deiliaid tir y bwriedir i'r llinell ei groesi. | ☐ |
| 9 | Os yw'r datblygiad yn 'ddatblygiad AEA', copi o'r Datganiad Amgylcheddol. Rhaid i'r ymgeisydd hefyd gadarnhau'r cyfeiriad yn yr ardal leol lle y gellir cael copïau o'r Datganiad Amgylcheddol ac a oes cost am y copïau hynny. | ☐ |
| 10 | Os nad yw'r datblygiad yn 'ddatblygiad AEA', copi o Gyfarwyddyd Sgrinio negyddol a gyhoeddwyd gan PCAC. | ☐ |
| 11 | Os gallai'r datblygiad effeithio ar safle Rhwydwaith Cenedlaethol (e.e. ACA neu AGA) neu safle Ramsar, 'Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Cysgodol'. | ☐ |

## 12. DOGFENNAU ATEGOL HANFODOL (parhad)

Ticiwch y blychau i gadarnhau pa ddogfennau/tystiolaeth a ddarparwyd gennych

12 Rhaid i ymgeiswyr ddarparu rhestr o'r holl ddogfennau sy'n cael eu cyflwyno fel rhan o'r cais. Dylai'r rhestr hon fod yn ddogfen ar wahân. Rhaid i unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â Chaniatâd Eilaidd gael eu labelu felly'n glir. Dylai'r rhestr ddefnyddio system gyfeirio briodol fel y gellir ei diweddaru os caiff unrhyw ddogfennau ychwanegol neu gyfredol eu darparu yn ystod y broses archwilio. Pan fydd Datganiad Amgylcheddol (DA) yn cyd-fynd â'r cais, dylai fod yn glir pa ddogfennau technegol sy'n rhan o'r DA/yn atodiad iddo a pha ddogfennau yr ystyrir eu bod yn ddogfennau ar wahân. ☐

13 Rhaid i bob cynllun a lluniad gael eu llunio i raddfa adnabyddadwy a rhaid i gynlluniau ddangos cyfeiriad y gogledd. ☐

14 Dylai fod modd troshaenu'r cynlluniau sy'n ffurfio rhan o'r DA. ☐

15 Rhaid cyflwyno copi papur a chopi electronig i PCAC a phob ACLl perthnasol. Cysylltwch â **PEDW.Seilwaith@llyw.cymru** i drefnu i'w gyflwyno'n electronig. Dim ond trwy Objective Connect, sef system sydd wedi'i chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, y gallwn dderbyn trosglwyddo ffeiliau a rhaid i ni wahodd cyfeiriadau e-bost er mwyn gallu lanlwytho dogfennau. Sylwch fod rhaid i gopïau papur gael eu hanfon trwy negesydd oherwydd y trefniadau yn adeilad Llywodraeth Cymru y mae PCAC wedi'i leoli ynddo. Dylech sicrhau hefyd eich bod wedi cysylltu â'r ACLl(au) perthnasol ynghylch eu trefniadau cyflwyno. ☐

---

## 13. FFI (D.S.: Bydd methu talu'r ffi gychwynnol yn achosi oedi wrth brosesu'r cais)

Sylwch na allwn dderbyn taliadau BACS heb godi anfoneb yn gyntaf. Cysylltwch â ni drwy PEDW.Seilwaith@llyw.cymru i drefnu i anfoneb gael ei chodi cyn cyflwyno eich cais.
Ni fydd yr amserlen i PCAC brosesu Derbyn eich Cais yn dechrau nes bydd:

- PCAC wedi cael y cyflwyniad papur ac electronig
- Pob ACLl perthnasol wedi cael y cyflwyniad papur ac electronig
- PCAC wedi cael ffi gychwynnol y cais a ffi Adroddiad ar yr Effaith Leol ar gyfer pob ACLl perthnasol

A ydych wedi cyflwyno'r ffi gychwynnol a'r holl ffioedd perthnasol yn ymwneud ag Adroddiadau ar yr Effaith Leol ar gyfer y cais trwy daliad BACS? Ydw ☐ Nac ydw ☐

Rhowch fanylion

| |
|---|
| |

**Manylion Personol** (ni fydd y rhain ar gael i'r cyhoedd)

**1. MANYLION PERSONOL YR YMGEISYDD**

Cyfeiriad

Cod post

Rhif ffôn yn ystod y dydd

E-bost

Cysylltwch â mi drwy'r E-bost ☐ Post ☐

---

**2. MANYLION PERSONOL YR ASIANT** (os oes un)

Cyfeiriad

Cod post

Rhif ffôn yn ystod y dydd

E-bost

Cysylltwch â mi drwy'r E-bost ☐ Post ☐

---

**Manylion Personol** (ni fydd y rhain ar gael i'r cyhoedd)

**3. ARALL** (rhan 3 – Ymweliad â'r Safle)

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad | |
| Cod post | |
| Rhif ffôn yn ystod y dydd | |
| E-bost | |

Cysylltwch â mi drwy'r E-bost ☐ Post ☐

**4. MANYLION PERCHENOGAETH SAFLE'R CAIS** (Tystysgrifau B, C, Ch a D)

| Enw | Y cyfeiriad lle y cyflwynwyd yr Hysbysiad |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |

**Manylion Personol** (ni fydd y rhain ar gael i'r cyhoedd)

## 5. TYSTYSGRIF DALIAD AMAETHYDDOL

| Enw | Y cyfeiriad lle y cyflwynwyd yr Hysbysiad |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |

Mae casglu a phrosesu'r data personol a ddarparwyd gennych chi ar y ffurflen hon yn unol â thelerau ein cofrestriad dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Mae rhagor o wybodaeth am ein Polisi Diogelu Data ar gael yn https://www.llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-llywodraeth-cymru

**Llofnodwch y ffurflen ar dudalen 20**

**DATGANIAD Y CAIS**

Cadarnhaf fy mod wedi cyflwyno copi papur a chopi electronig o'r ffurflen hon a'r holl ddogfennau ategol i bob ACLl perthnasol y mae'r datblygiad wedi'i leoli ynddo. ☐

Cadarnhaf fod pob adran wedi'i llenwi a bod y manylion am berchenogaeth yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth. ☐

Cadarnhaf fy mod wedi rhoi manylion am y taliad anfoneb a wnaed i dalu ffi gychwynnol y cais a phob ffi yn ymwneud ag Adroddiad ar yr Effaith Leol (un fesul ACLl perthnasol). ☐

Deallaf y gallwch ddefnyddio'r wybodaeth a roddwyd gennyf at ddibenion swyddogol mewn cysylltiad â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac y bydd y cais yn ymddangos ar-lein. Trwy gyflwyno'r ffurflen hon, rwy'n cytuno i'r wybodaeth a roddaf gael ei defnyddio yn y modd hwn. ☐

| | |
|---|---|
| Enw (mewn priflythrennau) | |
| Ar ran (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad | |

---

**Dylid anfon NAILL AI 1 COPI ELECTRONIG neu 1 COPI PAPUR atom ni yn:**

E-bost: PEDW.Seilwaith@llyw.cymru

Tîm Gwaith Achos DNS
PCAC
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Llinell gymorth: 0300 123 1590

---

**Sicrhewch eich bod yn anfon neges e-bost at PEDW.infrastructure@gov.wales i gadarnhau pan fydd yr holl ddogfennau electronig wedi'u lanlwytho trwy Objective Connect ac i gadarnhau'r dyddiad y bydd y negesydd yn danfon y copi papur i'n swyddfeydd. Wedi i ni gael eich Cais, byddwn yn ei gydnabod cyn pen 3 diwrnod gwaith. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am y camau nesaf tebygol ac amcangyfrif o'r amser y bydd yn ei gymryd i ni gwblhau ein gwiriadau a chadarnhau a fydd y cais yn cael ei dderbyn i'w archwilio neu ei wrthod.**

OGL © Hawlfraint y Goron 2025 